Ymyrraeth	Cymunedau Cryf a Gwydn			Gwyrdd	Cynnydd ar hyn o bryd ar darged
				Ambr	Cynnydd y tu ôl i'r targed, ond yn dal yn gyraeddadwy
Yn Arwain	Nicola Prygodzicz / Prif Uwch-arolygydd Ian Roberts	Cyfnod Adrodd	Chwarter 2 2019-20	Coch	Cynnydd ymhell y tu ôl i'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Mae'r Bwrdd Cymunedau Cryf a Gwydn yn parhau i ganolbwyntio ar ddull seiliedig ar leoedd yn y tymor byr yn Nwyrain Casnewydd. Rydym yn gweithio gyda'r gymuned leol yn Ringland i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol gyda golwg ar wella lles ac ansawdd bywyd. Yn dilyn gweithdy yn gynharach eleni, mae cynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu cynllun cyflawni sy'n cyd-fynd â'r rhaglen rhwydweithiau lles integredig.

Mae'r Project Ennill Cydfuddiannol i gynyddu cyfalaf cymdeithasol a gallu'r gymuned i wrthsefyll troseddu difrifol a threfnedig yn Ringland wedi'i gwblhau ac wedi'i werthuso. Roedd canlyniad y gwerthusiad yn gadarnhaol ac mae gwaith gwaddol yn cael ei gynllunio. Mae'r cynigion aflwyddiannus o dan gynllun Cyllidebu Cyfranogol yn cael eu hadolygu nawr gyda'r bwriad o gefnogi projectau ychwanegol a fyddai o fudd i'r gymuned leol. Yn ogystal, mae gweithgor etifeddiaeth wedi cyfarfod i drafod parhad projectau sy'n ymwneud â'r gwaith o Ennill Cydfuddiannol.

Mae Campws Cymunedol Ringland yn cynnwys 3 maes: Canolfan Iechyd a Lles, Hyb Cymdogaeth a rhaglen adfywio uwchgynllun Cartrefi Dinas Casnewydd. Mae Cartrefi Dinas Casnewydd wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori cymunedol ar ei uwchgynllun adfywio Ringland arfaethedig cyn cais cynllunio yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Rhaglen gwirfoddoli – mae cronfa Cyllidebu Cyfranogol ar waith i ariannu projectau cymunedol a hybu gwirfoddoli. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi yn gynharach eleni ar gyfer unigolion i ddatblygu eu galluoedd ac rydym yn gobeithio cynyddu'r gefnogaeth i wirfoddolwyr.

Prif risgiau / Rhwystrau i gynnydd	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y cymorth sydd ei angen
Mae dull gweithredu seiliedig ar leoedd yn ffordd newydd o weithio a bydd angen newid diwylliannol a threfniadol.	Isel	Mae arweinwyr Bwrdd Goruchwylio ac Ymyrryd y BGC yn dod o o sefydliadau partner, h.y. iechyd a'r heddlu.

Mesurau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwirio neddol	CAG
% y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol (dydd/nos)	Mae cynllun cyflawni wrthi'n cael ei ddatblygu a chaiff mesurau eu cymeradwyo yn ystod y broses hon		
% sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol			
% o bobl yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw			
% o bobl sy'n gwirfoddoli			
% o bobl sy'n teimlo'n unig			
Yn datblygu mesurau cyfalaf cymdeithasol ar gyfer Ringland			

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Llunio cynllun cyflawni a mesurau perfformiad terfynol ar gyfer yr ymyrraeth.
Datblygu cynlluniau gweithredu ar sail lleoedd ar gyfer yr hybiau cymdogaeth.
Cynnal ail raglen Cyllidebu Cyfranogol mewn lleoliad ysgol (Ysgol Gynradd Ringland neu Ysgol Gynradd Millbrook) ac mae trafodaethau wedi cychwyn gydag Undod Pillgwenlli i ehangu'r rhaglen i mewn i ardal arall o'r ddinas.
Parhau i weithredu'r rhaglen Campws Cymunedol.
Bore cymdeithasol i'w gynnal gyda phrojectau wedi'u hariannu yn Ringland i drafod cynnydd a chefnogaeth bellach.
Trafodaethau â Hyb PPNau i gytuno ar gymorth strategol a hyfforddiant ar gyfer y BGC.